



Cynulliad National  
Cenedlaethol Assembly for  
Cymru Wales

## ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU

## LEGISLATION COMMITTEE REPORT

### Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ailddeddfu o ran Cymru Reoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym 1990. Maent yn parhau i weithredu Cyfarwyddbau 89/108 EC a 92/2EEC ar gyd-ddynesu cyfreithiau Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym a gweithdrefnau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol bwydydd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl a hefyd yn darparu ar gyfer monitro tymereddau yn y cyfrwng ar gyfer cludo, cadw mewn warws a storio deunyddiau bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl.

#### Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7. Mae testun Saesneg rheoliad 5(1) yn cynnwys croesgyfeiriadau at "baragraff (2) neu (3)" ac at "baragraff (2) neu (4)"; mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "baragraff (1) neu (2)" a "pharagraff (2) neu (3)". Y testun Saesneg sy'n gywir. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae rheoliad 5(2)(a) yn cyfeirio at "a quick-frozen foodstuff". Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym". Mae Rheoliad 2 yn nodi mai'r hyn sy'n cyfateb yn Gymraeg i'r term "quick-frozen foodstuff" yw "deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae testun Saesneg rheoliad 5(3) yn mynnu y dylid marcio neu labelu deunydd pacio, cynhwysydd neu ddeunydd lapio deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym gyda disgrifiadau perthnasol ac fel dewis arall, mae'n awgrymu y gellir marcio neu labelu'r disgrifiad ar label sydd ynghlwm wrth y deunydd pacio, y cynhwysydd neu'r deunydd lapio. Mae'r testun Cymraeg yn awgrymu y gall y dull arall o farcio neu labelu fod ar label sydd ynghlwm â'r bwyd. Mae pwynt tebyg yn codi yn rheoliad 5(4). [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae Rheoliad 6 yn ymdrin â'r offer sydd i'w ddefnyddio i drin deunydd bwyd sydd wedi'i rewi'n gyflym. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at ddeunydd bwyd o dan reolaeth y gweithredydd bwyd; mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at ddeunydd bwyd yng ngofal y gweithredydd bwyd ac o dan ei reolaeth. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae Rheoliad 7 y testun Saesneg yn cynnwys iaith rhyw benodol. [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

Gellir cywiro'r holl bwyntiau adrodd y cyfeirir atynt uchod drwy Femorandwm Cywiriadau.

**Sylwadau**

Dim.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**06 Chwefror 2007**